**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 28 GORFFENNAF 2022**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, K.Jones, M.Shaw, C.Furlow-Harris, J.Stevens, J.Woodman-Ralph, N.Blackmore, Ms.L.Clement-Jones, D.Griffiths, Ms.A.Harris, H.Hasan, C.Jones, H.Jones, H.Lervy, C.Morris, A.Thomas, PWalker a/ac L.Willis

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

Helen Lewis a/ac Roberts

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd S. Jones** | Parthed: Eitem 7 a 10 yr Agenda, Ehangu Dechrau'n Deg – Cam 1 a Chomisiynu Gwasanaethau a Ariennir gan Deuluoedd yn Gyntaf gan ei fod yn Gyfarwyddwr ar ddau |

| | |
|---|---|
| | leoliad gofal plant yng Nghwm Afan. Teimlai fod ei ddiddordeb yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitemau hynny'n unig. |
| **Y Cynghorydd S. Knoyle** | Parthed: Eitem 8 yr Agenda, Defnyddio Staff Mewnol ar gyfer Gwasanaethau Hamdden, gan ei fod yn aelod o Gyfleusterau Chwaraeon Celtic Leisure Teimlai nad oedd ei ddiddordeb yn rhagfarnllyd. |

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2022/23</u>**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2022/2023.

5. **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

6. **<u>EHANGU DECHRAU'N DEG - CAM 1</u>**

Ail-gadarnhaodd y Cynghorydd S.Jones ei ddiddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**Penderfyniadau:**

1. Bod Cynllun Ehangu Cam Un Dechrau'n Deg yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

2. Bydd yr ehangiad i'r 3 maes newydd gyda holl elfennau'r rhaglen Dechrau'n Deg yn dechrau ym mis Medi 2022.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniadau:</u>**

Sicrhau bod ehangiad ymarferol yn bosib o fewn yr amserlenni a osodwyd ar gyfer cam un gan Lywodraeth Cymru; i ddechrau ehangu gwasanaethau Dechrau'n Deg i feysydd angen eraill o fewn yr awdurdod lleol, a chydymffurfio â Chanllawiau Ehangu Llywodraeth Cymru.

**<u>Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ddydd Llun, 1 Awst 2022 am 9.00am.

## 7. DEFNYDDIO STAFF MEWNOL AR GYFER GWASANAETHAU HAMDDEN

Roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad a gynigiwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn fel y manylir yn y penderfyniadau isod.

**Penderfyniadau:**

1. Bod Aelodau'n nodi'r dull o gyflawni'r gwaith o ddefnyddio staff mewnol erbyn 1 Ebrill 2023.

2. Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau cychwynnol sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno achos busnes llawn i'r Cabinet/Bwrdd y Cabinet ym mis Hydref/Tachwedd 2022 i gyflawni'r gwaith o ddefnyddio staff mewnol mewn gwasanaethau hamdden erbyn 1 Ebrill 2023 (ar yr amod na fydd dirprwyaeth o'r fath yn cael ei defnyddio lle mae newid arfaethedig i’r modd y darperir gwasanaethau a/neu gost sylweddol i ddarparu gwasanaethau).

3. Bod adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd y Cabinet Addysg, Sgiliau a Llesiant.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau hamdden dan do i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ddydd Llun, 1 Awst 2022 am 9.00am.

**Ymgynghoriad:**

Nid yw'n ofynnol i gynnal ymgynghoriad allanol ar yr adroddiad hwn mewn perthynas â darparu gwasanaethau hamdden. Cynhelir ymgynghoriadau staff TUPE, bydd y cyngor yn gweithio gyda Celtic Leisure i sicrhau bod pob aelod o staff Celtic Leisure yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ac mae'r cyngor wedi ceisio

cysylltu â Celtic Leisure ar bob adeg i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon penodol a godwyd, er bod y rhain wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn, gyda'r amserlen fel ffocws allweddol.

## 8. DYRANIADAU YCHWANEGOL AR GYFER Y RHAGLEN GYFALAF

**Penderfyniadau:**

1. Clustnodi £4.25m o'r cyllid cyfalaf ar gyfer gwelliannau i fannau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol.

2. Bod Swyddogion yn paratoi manylion pellach i'w hystyried yng nghyfarfodydd Bwrdd y Cabinet fel y bo'n briodol.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau mwy o fuddsoddiad a gwelliannau ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y Penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

## 9. GOFAL PLANT MEWN YSGOLION AC ADEILADAU ADDYSG: NEWIDIADAU DROS DRO I DREFNIADAU RHENT CYFREDOL

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor i ddechrau peilota newidiadau i daliadau ar gyfer darparwyr gofal plant mewn ysgolion, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bydd adroddiad ar ddatblygiadau gofal plant ar safleoedd ysgolion yn parhau i gael ei adrodd i'r Aelodau'n flynyddol.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau parhad datblygiad gofal plant yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn unol â pholisïau a chynlluniau LlC, gan ganiatáu i swyddogion ymdrechu i gau'r bylchau digonolrwydd gofal plant a nodwyd gan ein Harchwiliad Digonolrwydd Gofal Plant, yn ogystal â chefnogi Cyrff Llywodraethu ysgolion i gefnogi'r cais am ddatblygu cyfleusterau gofal plant ar safleoedd ysgolion.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

## 10. COMISIYNU GWASANAETHAU A ARIENNIR GAN DEULUOEDD YN GYNTAF

Ail-gadarnhaodd y Cynghorydd S.Jones ei ddiddordeb a gadawodd cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**Penderfyniadau:**

1. Cychwyn ymarfer comisiynu ar gyfer penodi darparwyr ar gyfer y gwasanaethau a'r gwerthoedd canlynol:

   - Ymdopi â cholled
   - Cam-drin Domestig
   - Iechyd a Lles Emosiynol
   - Cefnogaeth Gartref
   - Cynnal Perthnasoedd Iach
   - Cefnogaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anabledd/Anghenion Dysgu Ychwanegol.
   - Cefnogaeth i Deuluoedd sy'n cael eu Heffeithio gan Anabledd

2. Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes (neu ei gynrychiolydd enwebedig) yn cael awdurdod dirprwyedig i gytuno ar y manylebau terfynol ar gyfer gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.

3. Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes (neu ei gynrychiolydd enwebedig) yn cael awdurdod dirprwyedig i dderbyn y tendrau mwyaf manteisiol a nodwyd fel rhan o'r rhaglen dendro a nodwyd yn Argymhelliad 1, yn dilyn gwerthusiad ansawdd/cost o'r holl dendrau.

4. Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes (neu ei gynrychiolydd enwebedig) yn cael awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontract ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill gyda darparwyr i gyflawni gofynion Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.

5. Bod y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes (neu ei gynrychiolydd enwebedig) yn cael ei ddynodi fel cynrychiolydd y cyngor hwn at ddibenion y contract arfaethedig ac i gyflawni holl bwerau dirprwyedig cynrychiolydd o'r fath ar ran y cyngor.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau y gellir cynnal gweithgareddau comisiynu i sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol ar waith ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

11. **GWASANAETH ADNEWYDDU AC ADDASU TAI (HRAS) - POLISI ADNEWYDDU TAI'R SECTOR PREIFAT**

**Penderfyniad:**

Bod y Gwasanaeth Adnewyddu ac Addasu Tai – Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat yn cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gyda dyddiad gweithredu 2 Awst 2022 a'i adolygu yn 2025.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mabwysiadu offer polisi newydd a dechrau'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl dewisol newydd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 1 Ionawr 2022.

12. **DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL 2024-2025**

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno'r Dyddiadau Tymor Ysgol ar gyfer 2024/2025 i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

## 13. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw i broses Sgrinio'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwywyd y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn Atodiad 2.

2. Dynodwyd Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn awdurdod lleol arweiniol at ddibenion UKSPF.

3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i gymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi rhanbarthol terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 1 Awst 2022.

4. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i ymrwymo i gytundebau grant neu ddogfennau cysylltiedig a allai fod yn angenrheidiol i gael cyllid o'r UKSPF.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi Dinas a Sir Abertawe i gyflwyno Cynllun Buddsoddi UKSPF yn ffurfiol ar ran rhanbarth de-orllewin Cymru a galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i ymrwymo i gytundebau ariannu gyda sefydliadau i gyflawni prosiectau UKSPF.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ar 1 Awst 2022 am 9.00am.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 14. GOFYNION Y DEPO GWASTRAFF AC ADLEOLI'R CERBYDLU

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir cymeradwyaeth i adleoli'r cerbydlu casglu gwastraff i ardal Crymlyn Burrows.

2. Ceisiadau angenrheidiol y Corff Cymeradwyo SuDs fel sy'n angenrheidiol i ymdrin â materion sydd y tu hwnt i'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safle'r orsaf drosglwyddo:

3. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gofal Strydoedd mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, yr Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i benodi cynghorwyr ymgynghorol i baratoi unrhyw ddogfennau dylunio a thendro, a chaffael y gwaith adeiladu angenrheidiol.

4. Nodi'r gofyniad cyfalaf ar gyfer y prosiect a chymeradwyo'r gwariant cyfalaf angenrheidiol drwy'r gronfa wastraff o £0.9m a benthyca darbodus o £2.5m, a thelir am yr ail swm o'r cyllidebau rheoli gwastraff/casglu gwastraff.

5. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gofal Strydoedd mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, yr Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i roi rhybudd priodol i staff a gweithredu'r cynnig i adleoli'r gwasanaeth casglu gwastraff i'r Orsaf Drosglwyddo cyn gynted ag y bydd cyfleusterau ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2023/24.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau y gellir diwallu anghenion gwasanaethau yn y dyfodol a bod modd mwyafu arbedion effeithlonrwydd.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a fydd yn dod i ben ar 1 Awst 2022 am 9.00am.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad staff a lywiodd y cynnig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

15. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 16 ac 17 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn fel eitem frys yn unol ag Adran 17B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

**Rheswm**

Oherwydd yr elfen amser.

16. **TREFNIADAU YMGEISIO AM GRANTIAU TRYDYDD SECTOR - 2023 2024**

**Penderfyniadau:**

1. Bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo fel y meini prawf ar gyfer gwahodd ceisiadau am arian, a lywodraethir gan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector 2023-24:

    - Cyfrannu at gyflawni polisïau a blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2027 y cyngor.
    - Lleihau'r galw ar wasanaethau'r cyngor. Er enghraifft, hyrwyddo a chynorthwyo dinasyddion i ddefnyddio gwasanaethau digidol y cyngor; hyrwyddo cyfranogiad mewn gwasanaethau dewisol i gynyddu nifer sy'n eu defnyddio; neu

drwy gynnig gweithgareddau ymyrryd yn gynnar ac atal sy'n cynnal neu'n gwella lles pobl

- Manteisio ar adnoddau ychwanegol. Croesewir yn arbennig geisiadau sy’n dangos sut caiff arian y cyngor ei ddefnyddio i ddenu adnoddau ychwanegol i gefnogi polisïau a blaenoriaethau’r cyngor.
- Cynaliadwyedd ariannol. Bydd y cyngor yn dymuno cael ei fodloni nad yw’r ymgeisydd yn ddibynnol ar arian parhaus gan y cyngor i gyflawni cynaladwyedd ariannol.
- Yn ogystal â'r uchod, mae croeso arbennig i geisiadau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn helpu grwpiau a chymdeithasau cymunedol i wella o'r pandemig a datblygu capasiti/cydweithio cymunedol ymhellach - gan adeiladu ar y gweithrediadau cymunedol a gefnogodd yr ymateb i bandemig COVID-19.
- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu arian am hyd at 3 blynedd a fydd yn rhoi’r sicrwydd i sefydliadau'r trydydd sector wneud cais am arian o ffynonellau eraill a galluogi ymagwedd tymor hwy at gynllunio a sicrhau cynaladwyedd.

2. Nodi'r mân ddiwygiadau a wnaed i'r cynllun fel sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod penderfyniadau cyllido a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 mewn perthynas â grantiau a ddyfernir o dan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector, yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

17. **AILADEILADU CWLFERT DREIF Y CASTELL**

**I'w benderfynu:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoi cymeradwyaeth am warantu'r diffyg o £200,000 am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Cymerir hyn o gyllideb wrth gefn y Rhaglen Gyfalaf i alluogi'r prosiect i ddechrau ar unwaith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Rheoli'r risgiau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chwymp rhannol y ffordd bresennol a sicrhau bod Castle Drive yn cael ei ailagor i draffig cyn gynted â phosib a bod y grant presennol yn cael ei wario'n unol ag amodau Grant Llywodraeth Cymru.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet, bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith. Nid yw'r eitem yn destun y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

19. **HEOL PANTEG/CYFYNG, TIRLITHRIAD (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFFAU 13 AC 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi cynnydd ariannol y taliadau iawndal a adroddwyd yn flaenorol.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i gytuno a thalu'r costau rhesymol a hawlir fel rhan o'r cytundeb dymchwel.

3. Bod y bwlch ariannol o ran costau dymchwel yn cael ei nodi.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet i dalu anfoneb y contractwr dymchwel, adennill y cyfraniadau yswiriant fel rhan o'r cytundeb dymchwel a chofrestru unrhyw falans sy'n weddill fel dyled prisiant tir lleol yn erbyn yr eiddo a'r tir.

5. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) perthnasol o'r Cabinet ar ôl dymchwel y tai a throsglwyddo'r holl arian sy'n ddyledus fel rhan o'r cytundeb dymchwel, i ymrwymo i gytundeb gyda'r perchnogion i brynu'r tir am £1 ynghyd â thaliad o hyd at £500 o gostau cyfreithiol.

6. Nodi bod trosglwyddiad y tir i berchnogaeth y cyngor, unrhyw ddyledion sydd wedi'u cofrestru fel prisiant tir lleol mewn perthynas â'r costau dymchwel heb yswiriant yn cael eu dileu.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i symud ymlaen a chwblhau gwaith dymchwel yr eiddo yn 96, 94, 92, 90 ac 88 Heol Cyfyng ac i brynu'r tir er mwyn i'r cyngor gymryd rheolaeth o'r safle i sicrhau nad oes unrhyw werthiant pellach na datblygiad anawdurdodedig yn digwydd a allai tanseilio sefydlogrwydd y llethr a pheryglu'r isadeiledd priffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 1 Awst 2022.

20. **DARPARU CANOLFAN GROESO (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai a'r Prif Swyddog Cyllid i dderbyn y cynnig grant ac ymrwymo i'r cytundeb grant gyda Llywodraeth Cymru;

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog Cyllid i wneud ceisiadau am gyllid yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i gyd-drafod ac ymrwymo i'r drwydded gyda Goytre Leisure Holdings Limited ar gyfer defnyddio canolfan ferlota L&A yng Ngoetre at ddibenion Canolfan Groesawu fel y nodir uchod

4. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i ddyfarnu'r contract ar gyfer gwasanaethau diogelwch yn uniongyrchol ar sail angen brys.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i ymateb yn gyflym ac yn briodol i'r argyfwng dyngarol o ganlyniad i'r gwrthdaro yn yr Wcráin, a sefydlu canolfan groesawu, gan gynnwys cefnogaeth gynhwysol yng Nghanolfan L&A, Goytre.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet, bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar unwaith. Nid yw'r eitem yn destun y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**